# Cronfa Gymunedol Uchel Siryf Gwent

**Meini Prawf Cyllid: Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol**

Sefydliad Cymunedol Cymru

Mae Cronfa Gymunedol Uchel Siryf Gwent yn bodoli i gefnogi pobl ifanc (hyd at 25) ledled Gwent i fyw bywydau mwy diogel a mwy cadarnhaol.

Nod y gronfa yw cefnogi grwpiau a phrosiectau cymunedol sy'n atal troseddu, lleihau risgiau i bobl ifanc, cynnig dewisiadau gwahanol i atal cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, a meithrin perthynas dda rhwng cymunedau a'r heddlu.

Wrth wneud cais, mae'n bwysig eich bod yn dangos sut mae eich prosiect yn cysylltu ag un neu fwy o'r themâu hyn: (Sylwch y bydd ceisiadau yn cael eu trin yn gyfartal os ydynt yn cyd-fynd ag un neu fwy o'r themâu).

## Themâu'r gronfa

**Ataliad**

Nod y gronfa yw cefnogi prosiectau sy'n helpu i atal problemau cyn iddynt ddechrau. Gallai hyn gynnwys:

- Rhoi cyfleoedd cadarnhaol, modelau rôl a sgiliau i bobl ifanc ar gyfer y dyfodol.
- Mynd i'r afael â'r heriau a all roi pobl ifanc mewn perygl (e.e. diogelwch ar-lein, camddefnyddio sylweddau, neu bwysau cyfoedion).
- Creu mannau diogel a gweithgareddau sy'n annog ac yn addysgu pobl ifanc am ddiogelwch, gofalu am eraill a gwneud dewisiadau iach yn hyderus.

**Troseddu**

Nod y gronfa yw cefnogi grwpiau a phrosiectau sy'n lleihau'r risgiau o droseddu a'r niwed o fod yn ddioddefwr. Gallai hyn gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o effaith a chanlyniadau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cefnogi pobl ifanc a allai fod mewn perygl o droseddu, neu sydd eisoes wedi bod yn rhan o droseddu.
- Darparu cymorth i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan droseddu, gan gynnwys dioddefwyr a grwpiau agored i niwed.

**Canfyddiadau o'r heddlu yn y gymuned**

Nod y gronfa yw cryfhau ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng pobl ifanc, eu cymunedau, a'r heddlu. Gallai hyn gynnwys prosiectau sy'n:

- Creu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol rhwng pobl ifanc a'r heddlu.
- Helpu pobl ifanc i deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu parchu a'u cefnogi gan wasanaethau lleol.
- Hyrwyddo atebion a arweinir gan y gymuned sy'n gwneud i gymdogaethau deimlo'n fwy diogel.

## Y mathau o brosiectau a fydd yn cael eu cefnogi

Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr, ond bwriad yw dangos y mathau o brosiectau y mae'r gronfa yn ceisio eu cefnogi.

- Gweithgareddau sy'n cynnig pethau diogel a hwyliog i bobl ifanc eu gwneud, megis clybiau ieuenctid, cynlluniau chwarae, celfyddydau, chwaraeon, mannau awyr agored, neu gadetiaid.
- Prosiectau sy'n helpu pobl ifanc a'r gymuned ehangach i gadw'n ddiogel ac osgoi troseddu, megis cyngor ar berthnasoedd iach, cam-drin domestig, cyffuriau ac alcohol, neu bod yn riant da.
- Cyfleoedd sy'n rhoi modelau rôl, sgiliau a hyder cadarnhaol i bobl ifanc ar gyfer y dyfodol.
- Prosiectau diogelwch cymunedol, fel diogelwch ar y ffyrdd, ymwybyddiaeth tân, atal sbwriel, neu lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mannau diogel a gweithgareddau sy'n annog pobl ifanc i wneud dewisiadau iach, gofalu am eraill, a theimlo'n hyderus.
- Cefnogaeth ar gyfer heriau sy'n peryglu pobl ifanc, megis diogelwch ar-lein, camddefnyddio sylweddau, neu bwysau cyfoedion.
- Mentora a chefnogaeth i helpu pobl ifanc i adeiladu hunan-barch a dod yn aelodau egnïol, cyfrifol o'u cymuned.

## Grantiau sydd ar gael

Gwahoddir grwpiau i wneud cais am grantiau o hyd at £7,500 i'w gwario yn 2026-27 ar ystod o gostau a allai gynnwys:

- Treialu prosiect newydd
- Costau rhedeg rhaglen o weithgareddau
- Prynu offer a deunyddiau

Sylwch fod yn rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd ag o leiaf un o'r themâu cronfa a ddisgrifir uchod.

## Cyllid aml-flwyddyn

Gellir dyfarnu nifer fach o grantiau aml-flwyddyn hefyd (hyd at 3 blynedd, a fyddai'n uchafswm o £22,500 dros y cyfnod o 3 blynedd).

Bydd y gwobrau hyn yn cael eu penderfynu gan banel y gronfa yn ystod digwyddiad dyfarnu grantiau cyfranogol, yn seiliedig ar y prosiect a chryfder y cyflwyniad ymgeisio.

# Pwy all wneud cais?

Mae'r Gronfa yn agored i fudiadau cymunedol a gwirfoddol sy'n gweithio yng Ngwent (Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Caerffili), gan gynnwys:

- Elusennau cofrestredig
- Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs)
- Grwpiau gwirfoddol a chymunedol
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CICs)
- Cwmnïau nid-er-elw (wedi'u cyfyngu gan gyfranddaliadau neu warant)
- Mentrau cymdeithasol

Rydym yn croesawu ceisiadau gan sefydliadau ar lawr gwlad lle mae gwirfoddolwyr yn chwarae rôl allweddol.

# Dyddiadau allweddol ar gyfer 2025/26

- **30 Medi 2025 –** Cronfa yn agor i geisiadau. Defnyddiwch y botwm 'Archebu Galwad' sydd ar gael ar dudalen we y gronfa i siarad â Swyddog Grantiau am unrhyw ymholiadau.
- **4 Tachwedd 2025 (hanner dydd)** – Mae'r gronfa yn cau i geisiadau.
- **Wythnos sy'n dechrau 19 Ionawr 2026 –** Cysylltu gydag ymgeiswyr i adael iddynt wybod os ydynt wedi cyrraedd y rhestr fer.
- **Dydd Sadwrn 21 Mawrth 2026 –** Digwyddiad dyfarnu grantiau cyfranogol Eich Llais, Eich Dewis.

# Sut i wneud cais?

Rhaid gwneud ceisiadau ar-lein drwy wefan Sefydliad Cymunedol Cymru. Os nad ydych yn siŵr am eich cais, gallwch archebu galwad gyda Swyddog Grantiau am gyngor cyn ymgeisio.

**Bydd grantiau'n cael eu dyfarnu yn y digwyddiad dyfarnu grantiau cyfranogol; Eich Llais, Eich Dewis ar ddydd Sadwrn 21 Mawrth 2026 yn rhanbarth Blaenau Gwent.**

Mae grantiau cyfranogol yn ymwneud â throsglwyddo penderfyniadau yn ôl i'r gymuned leol. Mae'n rhoi cyfle i bobl leol ddewis y prosiectau maen nhw'n teimlo fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf yng Ngwent.

Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent, a gwahoddir pob ymgeisydd ar y rhestr fer i ymuno â'n digwyddiad dyfarnu grantiau blynyddol, lle mae grwpiau cymunedol yn dod at ei gilydd i benderfynu pa brosiectau i'w ariannu.

**Sylwer, os nad ydych yn gallu mynychu'r digwyddiad dyfarnu grantiau, bydd eich cais yn cael ei dynnu'n ôl.**

# Pethau i'w cofio

- Ni fydd dyfarniadau grantiau yn cael eu gwneud tan y digwyddiad dyfarnu grantiau ym mis Mawrth 2026, felly cofiwch hyn wrth gynllunio amserlenni eich prosiect.
- Rhaid i granteion llwyddiannus gynnal ymweliad gan yr Uchel Siryf yn ystod y flwyddyn ariannunfel rhan o'u amodau grant.
- Dylid gwario grantiau yn llawn o fewn y cyfnod a ariennir.
- Rydym yn annog sefydliadau i feddwl am eu heffaith hirdymor a sut y gallant weithio gydag eraill i ychwanegu gwerth.

**Ni allwn ariannu:**

- Costau eisoes cyn i'r grant gael ei ddyfarnu.
- Codi arian ar gyfer elusennau neu grwpiau eraill.
- Prosiectau na ellir eu cwblhau o fewn blwyddyn (oni bai eu bod yn cael cyllid aml-flwyddyn).

# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio’n well gyda phobl a cymunedau a gyda’i gilydd, a rhwystro problemau parhaus rhag codi megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw’n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae’u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Hoffem i chi ystyried sut y gallai’ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth, a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Hoffem weld sut mae grwpiau’n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.